

REES, WILLIAM THOMAS ('Alaw Ddu '; 1838 - 1904)

Enw: William Thomas Rees

Ffugenw: Alaw Ddu

Dyddiad geni: 1838

Dyddiad marw: 1904

Rhiant: Mary Rees

Rhiant: Thomas Rees


Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio

Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 29 Medi 1838 mewn pentref o'r enw Pwll-y-glaw, ger Pontrhydyfen, Morgannwg, mab Thomas a Mary Rees a hanoedd o Drelales ger Penybont-ar-Ogwr. Yn 1851 symudodd y teulu i Aberdâr. Gan iddo gollu ei dad yn fachgen, aeth y mab i weithio i'r pwll glo. Yn Aberdâr daeth o dan ddylanwad '[Ieuan Gwyllt](#)' a cherddorion eraill a drigai yno, a chynhyddodd ei wybodaeth gerddorol. Yma hefyd y priododd yn 1859. Symudodd i'r Dinas, Cwm Rhondda, yn 1861, ac yma y cyfansoddodd ei dôn 'Glanrhondda.'

Yn 1864 aeth i Bontypridd i fyw, a bu'n arwain y canu yn Penuel (Methodistiaid Calfinaidd). Yn 1868 cafodd swydd gan yr [arglwyddes Llanover](#) yn Abercarn, a bu'n arwain y canu yng nghapel yr arglwyddes tra y bu yno. Ar gais eglwys y Trinity (Methodistiaid Calfinaidd), Llanelli, symudodd yno yn 1870, a phenodwyd ef yn arweinydd canu yr eglwys. Sefydlodd Gymdeithas y Philharmonic yn y dref, ac am gyfnod hir bu'n arwain cymanfaoedd canu a beirniadai mewn eisteddfodau ar hyd a lled Cymru.

Bu'n olygydd *Y Gerddorfa*, 1872-79; *Yr Ysgol Gerddorol*, 1878-9; [Cyfaill yr Aelwyd](#) , 1880-81 (gyda [J. Ossian Davies](#)); *Cerddor y Cymry*, 1883-94; *Cofiant Ieuan Gwyllt* (gyda [J. Owen](#), Cricieth), ac ysgrifennodd lawer i'r cylchgronau ar faterion cerddorol. Enillodd yn eisteddfod Llundain, 1887, ar y traethawd, 'Pa fodd i godi safon cerddoriaeth offerynnol yng Nghymru.' Cyfansoddodd oratorio, 'Ruth a Naomi,' a 'Brenin Heddwch'; cantawdau, 'Llywelyn ein Llyw Olaf,' 'Cantre'r Gwaelod,' a'r 'Bugail Da,' etc.; motet, 'Gweledigaeth Ioan' (a enillodd y wobr yn eisteddfod Conwy, 1877); pedair 'Requiem'; casgliadau o gytganau, anthemau, salm-donau. Bu 'Y Gwlithyn' a 'Ffynnon ger fy Mwth' yn boblogaidd. Cyfansoddodd ugeiniau o donau hefyd. Erys ei dôn 'Glanrhondda' ymhlith y rhai a arferir yn gyson gan yr holl enwadau crefyddol.

Bu farw 19 Mawrth 1904, a chladdwyd ef ym mynwent Capel Newydd, Llanelli.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Cerddor, Gorffennaf 1898 a 1904

Y Geninen, 1905

Cymru (O.M.E.), xxix, 53

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Papurau Alaw Ddu \(W. T. Rees\)](#)

VIAF: [34165474](#)

Wikidata: [Q28361371](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

